# Cofiwch, y cyntaf i'r felin...











Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Dafydd Owen ar:
**07795 485081** (symudol)
**01286 830081** (gyda'r nos)
crwydro@crwydro.com

Mae 4 blynedd bellach ers i Crwydro drefnu taith i'r Wladfa, hyn o achos y Covid felltith a ymledodd trwy'r byd wrth gwrs. Yn rhyfeddol iawn, ychydig effaith a gafodd ar y wladfa, hyn yn deillio o reolau caeth iawn gan y wladwriaeth a hyd yn oed fwy caeth yn nhalaith Chubut. Fodd bynnag mae'r wlad wedi agor ei drysau i ymwelwyr unwaith eto er mawr ryddhad i drigolion y Wladfa a welodd eu diwydiant twristiaeth yn diflanu tros nos bron. Gallaf eich sicrhau y bydd croeso brwd i chi yna gan y trigolion lleol.

# Ffurflen archebu

**Yn ôl i Batagonia**
**4–17 Hydref, 2023**

Dylid dychwelyd y ffurflen hon ynghyd â llun gopi o'ch pasbort i:
**Taith Patagonia, Arwelfa, Bryn Rhos, Y Groeslon, Gwynedd, LL54 7DL.**

**Taliadau:**
Dychwelwch y ffurflen hon ynghyd â blaendal o: **£2,000.**
*Taliadau'n syth i'r banc neu seciau'n daladwy i 'Crwydro'* cyn gynted â phosib neu erbyn **30 Mai 2023** fan hwyraf.
Disgwylir ail-daliad o £2,000 ddiwedd Mehefin 2023 a thaliad olaf o £2,500 ddiwedd mis Medi 2023.

Enw (fel ag y mae'n ymddangos ar eich passport)

Cyfeiriad

Cod Post Ffôn

E-bost

Hoffwn archebu lle ar y daith
**'Yn ôl i Batagonia'**
Amgaeaf flaendal o
☐ £2,000

Llofnod

Dyddiad

## PWYSIG!!

Er mwyn gwarantu'r pris, mae'n ofynol i ni gadarnhau popeth, yn enwedig felly tocynnau hedfan a gwestai erbyn dechrau Mehefin. Os y byddwch yn ymuno â ni bydd angen cadw at y dyddiad canlynol :-

**Cadarnhau a blaendal o £2,000 erbyn 30 Mai, 2023**

**Talu'n syth i'r banc:**

Rhif didoli 40-16-02
Rhif cyfri 41760432

Os y byddwch angen mwy o wybodaeth am Batagonia a'r Wladfa mae digonedd o wybodaeth i'w gael ar y we, ac mewn nifer o lyfrau.

Mae teithlyfr diddorol iawn gan Cathrin Williams o'r enw "Y Wladfa yn dy Boced" a gyhoeddwyd gan Wasg y Bwthyn. Gwerth ei ddarllen cyn mynd ac hefyd i ddod gyda chi. Mae'n llawn o hanes a gwybodaeth ddiddorol am y Wladfa.

www.crwydro.com | crwydro@crwydro.com



# Yn ôl i Batagonia

Taith wefreiddiol



**4–17 Hydref, 2023**

CRWYDRO ER BUDD

ABTA

crwydro.com

Yn ôl i Batagonia – 4–7 Hydref, 2023

## BRASLUN O'R DAITH

**£6,500**

*Bydd tywysydd profiadol gydol y daith*

**Diwrnod 1**
Dydd Mercher 4 Hydref
Hedfan o Fanceinion i Heathrow (os o'r gogledd), Heathrow (os o'r de), ac yna i Rio de Janeiro.

**Diwrnod 2**
Dydd Iau 5 Hydref
Taith ddiddorol o gwmpas y ddinas gan gynnwys Sugar Loaf Mountain, Christ the Redemer, traeth enwog Cocacobana ynghyd a gerddi botaneg (barbeciw yn gynnwysiedig).

**Diwrnod 3**
Dydd Gwener 6 Hydref
Hedfan i Drelew

**Diwrnod 4**
Dydd Sadwrn 7 Hydref
Cyfarfod ein tywysydd a thaith i'r Gaiman gan ymweld a'r amgueddfa, ysgolion cynradd ac uwchradd. Ymlaen i Ddolafon a Llain Las sef cartref Nel Fach y Bwcs. Swper yn y Gaiman gyda pobl leol.

**Diwrnod 5**
Dydd Sul 8 Hydref
Taith i Borth Madryn ple y glaniodd y Mimosa. Taith i benrhyn y Valdes lle y gobeithir gweld morfilod a bywyd gwyllt yr ardal.

**Diwrnod 6**
Dydd Llun 9 Hydref
Diwrnod yn Nhrelew gan ymweld ag Amgueddfa y Deinasoriaid, Ysgol yr Hendre. Bydd opsiwn i ymweld â Punta Tombo i weld miloedd o bengwyniaid.

**Diwrnod 7**
Dydd Mawrth 10 Hydref
Croesi'r paith i Esquel yng Nghwm Hyfryd.

**Diwrnod 8**
Dydd Mercher 11 Hydref
Taith i Drefelin gan ymweld a chapeli, Ysgolion Cymraeg yr Andes Amgueddfa Werin a llawer mwy.

**Diwrnod 9**
Dydd Iau 12 Hydref
Diwrnod rhydd i grwydro Esquel a Threfelin. Osado gyda'r nos.

**Diwrnod 10**
Dydd Gwener 13 Hydref
Trwy'r Andes a'i gologfeydd bendigedig i Bariloche yn ardal y Llynnoedd.

**Diwrnod 11**
Dydd Sadwrn 14 Hydref
Taith ddiddorol o gwmpas ardal Bariloche gan hedfan i Buenos Aires yn y Prynhawn.

**Diwrnod 12**
Dydd Sul 15 Hydref
Taith ddifyr o gwmpas y ddinas ddiddorol hon. Sioe Tango gyda'r nos yn cynnwys pryd bwyd.

**Diwrnod 13**
Dydd Llun 16 Hydref
Cyfle i siopa cyn ein hediad yn ôl i Gymru.

**Diwrnod 14**
Dydd Mawrth 17 Hydref
Cyrraedd adra.







### Gair am ein harweinydd ar y daith




Yn enedigol o ardal y Gaiman ac wedi siarad Cymraeg ar hyd ei hoes, mae **Marli** yn aelod o Orsedd Beirdd Y Wladfa. Mae'n wraig hynaws a cherddorol ac yn arwain a hyfforddi unigolion a chorau ac wedi bod yn athrawes gydol ei hoes.

Mae ei brwdfrydedd tuag at y Wladfa yn heintus fel y cewch weld ar y daith.

**crwydro.com**

### CYFLE I BROFI



- Diwylliant y Wladfa
- Bwyd bendigedig
- Golygfeydd anhygoel
- Croeso y trigolion lleol
- Ysblander Rio De Janeiro a Buenos Aires
- Hwyl gyda'ch cyd-deithwyr.

Mae cannoedd o Gymry wedi gwneud y daith ac wedi mwynhau.
Does neb sydd wedi bod ac wedi difaru.

### Pris i gynnwys:

- bysiau drwy gydol y daith
- hediadau rhyngwladol a mewnol
- gwestai ar lwfans gwely a brecwast
- cludiant bws drwy gydol y daith
- Sioe Tango a phryd nos
- gwasanaeth tywyswyr drwy gydol y daith.

**Y cyntaf i'r felin! Archebwch le rŵan.**









### Barn rhai a fu ar deithiau blaenorol

**"Gair byr i ddweud diolch am amser gwych a bythgofiadwy."** – Gwyneth Parry

**"Diolch am drefnu taith wych, mwynhau fy hun yn fawr a'r gwmnïaeth y wych."** – Beryl Vaughan

**"Diolch yn ofnadwy am drefnu'r daith i Batagonia mor drylwyr. Roedd pob dim yn berfaith ac yn hwyl mawr."** – Mair Price

**"Diolch am daith heb ei hail. Y ddau ohonom wedi mwynhau'r golygfeydd, y bwyd, y chwerthin a'r gwmnïaeth."** – Nia a Geraint

**"Gair o ddiolch yn ddiffuant iawn i sicrhau llwyddiant y daith i'r Wladfa. Pawb wedi cael profiad bythgofiadwy.** – Jan a Haydn

**"Taith fendigedig, faswn i'n mynd yn ôl fory nesa'."** – Meirion Evans

**"Diolch yn ddiffuant am drefnu'r daith. Mae'n debyg fod pob emosiwn dan haul wedi ei gyffwrdd dros y cyfnod."** – Mair a Gwyndaf